**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Ionawr 2001 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 5.15 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**ADOLYGIAD O’R GWEITHDREFNAU PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

**Diben**

1. Yn ei gyfarfod ym mis Medi, gofynnod y Pwyllgor imi adolygu’r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio er mwyn pennu dyddiad olaf ar gyfer gwneud penderfyniadau o’r fath. Mae’r papur hwn yn argymell targed ac yn awgrymu newidiadau i’r gweithdrefnau presennol. Byddai’r newidiadau hyn yn gwneud y drefn yn fwy hyblyg ac eglur ac yn ein galluogi i wneud penderfyniadau o fewn cyfnod rhesymol. Caiff newidiadau arfaethedig i’r Rheolau Sefydlog eu hystyried a chaiff yr opsiynau eu gwerthuso yn erbyn y gofynion o ran hawliau dynol. Mae’r adolygiadau yn ymwneud yn benodol â’r modd yr ymdrinnir â’r mathau o achosion a gyfeirir at y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (PPC) iddo benderfynu arnynt. Y rhain yw:

Apelau o dan Adran 78 o Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd wedi’u hadfeddiannu oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio;

Ceisiadau cynllunio sydd wedi’u galw i mewn; a

Ceisiadau i gadarnhau Gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992.

**Crynodeb o’r Argymhellion**

**2.**

**(i) mabwysiadu targed i benderfynu ar 80% o’r holl achosion Adran 77 ac Adran 78 o fewn 12 wythnos (para 9);**

**(ii) diwygio’r Rheolau Sefydlog (a RhS 35 yn arbennig) er mwyn caniatáu dewis aelodau’r PPC o blith pwyllgor sefydlog o aelodau o Bwyllgor y Cynulliad sydd yn gyfrifol am gynllunio sydd wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ac sydd wedi arwyddo’r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau, ac aelodau sydd wedi bod yn aelodau o’r "Pwyllgor Cynllunio" o fewn y 12 mis blaenorol, sydd wedi derbyn hyfforddiant ac sydd wedi arwyddo’r Cod Ymddygiad (para 17(1));**

**(iii) dylai aelodau’r PPC fod yn destun yr un rheolau ag sydd mewn grym eisoes o ran niferoedd, cworwm, a chydbwysedd y Pleidiau (para 17(2)):**

**(iv) dylai Clerc y "Pwyllgor Cynllunio" drefnu cyfarfod o’r PPC ar ôl iddo dderbyn cais ysgrifenedig gan Weinidog y Cynulliad sy’n gyfrifol am Gynllunio. Byddai’r cais yn pennu’r dyddiad olaf ar gyfer gwneud penderfyniad. Os na fydd penderfyniad wedi ei wneud erbyn y dyddiad hwnnw, bydd y penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i Brif Weinidog Cymru (para 17(3));**

**(v) byddai’n bosibl newid aelodaeth pob PPC (o fewn y cyfyngiadau a nodir yn (iii) uchod) hyd at yr amser yr anfonir y papurau achos at yr aelodau (para 17(4));**

**(vi) os na fydd y cyfarfod wedi ei gynnal o fewn 4 wythnos i’r cais ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cynulliad, caiff y penderfyniad ei ddirprwyo i Brif Weinidog Cymru yn awtomatig (para 17(5)); a**

**(vii) Newid y Rheolau Sefydlog er mwyn cynnig yr eglurder y gofynnir amdano yn Atodiad C y Papur hwn.**

3. Bydd angen i’r Pwyllgor ystyried a yw’r newidiadau a argymhellir, yn eu hanfod, yn cynnig ffordd ddoeth ymlaen. **Bydd angen ystyried y newidiadau arfaethedig i’r Rheolau Sefydlog (a allai effeithio ar fwy na RhS 35) yng ngoleuni penderfyniad y Pwyllgor, eu trafod gyda’r cyfreithwyr, a’u cyflwyno i’r Pwyllgor Busnes yn unol â RhS34.**

**Cefndir ac Ystyriaethau**

Targedau

4. *Mae’n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar 80% o geisiadau cynllunio cyn pen 8 wythnos* ar ôl derbyn cais cynllunio dilys. *Yn Lloegr*, mae gan Swyddfeydd y Llywodraeth dargedau anghyhoeddedig i benderfynu ar *80% o achosion cyn pen 13 wythnos ar ôl dderbyn adroddiad yr Archwiliwr a 100% ohonynt o fewn 20 wythnos*. Roedd gan y Swyddfa Gymreig darged anghyhoeddedig; os nad oedd wedi penderfynu ar gais o fewn 8 wythnos byddai’n hysbysu’r datblygwr a’r awdurdod cynllunio lleol o’r sefyllfa a’r amserlen debygol ar gyfer gwneud penderfyniad. Ceir targedau cyhoeddedig ar gyfer ymdrin ag achosion Trafnidiaeth a Gwaith yng Nghymru a Lloegr. Mae’r rhain yn amrywio o 3 mis i 6 mis, gan ddibynnu os oes gwrthwynebiad neu os oes angen cynnal ymchwiliad cyhoeddus, er enghraifft. Bydd targedau’r Cynulliad yn cychwyn ar ôl iddo dderbyn adroddiad yr archwiliwr gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae gan yr Arolygiaeth ei hun dargedau ar gyfer ymdrin ag achosion ee bydd yn penderfynu ar achosion Adran 78 sy’n destun ymchwiliadau cyhoeddus o fewn 31 wythnos.

5. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf (ers 1/10/98) penderfynwyd ar 11 o geisiadau a alwyd i mewn o dan Adran 77. Ar gyfartaledd, cymerwyd 11 wythnos i benderfynu arnynt. Yn yr un cyfnod, penderfynwyd ar 9 apêl a adfeddiannwyd. Ar gyfartaledd, cymerwyd 19 wythnos i benderfynu arnynt.

6. Yn ystod 2000, penderfynwyd ar 6 o achosion o dan y trefniadau newydd a nodir yn RhS 35. Penderfynwyd ar y 5 achos Adran 77 mewn 17 wythnos, ar gyfartaledd. Cymerodd 82 wythnos i benderfynu ar yr un achos Adran 78. Roedd hwn yn achos mawr a chymhleth a bu’n rhaid cyfeirio’n ôl yn gyson at y sawl oedd yn apelio a’r rhai oedd â diddordeb.

7. Bydd yr amser a gymerir i benderfynu ar achos yn dibynnu i raddau helaeth ar gymhlethdod yr achos dan sylw a nifer yr achosion sydd dan ystyriaeth. Mae’n bosibl dadansoddi adroddiad yr Archwiliwr, paratoi Papur Pwyllgor (a chael y cyfreithwyr i gymeradwyo’r papur) o fewn 3-4 wythnos. Bydd achos mwy cymhleth yn cymryd mwy o wythnosau. Mae’n cymryd 3-4 wythnos i drefnu pwyllgor PPC dan y trefniadau presennol, os nad oes unrhyw oedi o ganlyniad i doriadau er enghraifft. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iawn cyrraedd targed o 8 wythnos ar gyfer penderfynu ar achos o dan y trefniadau presennol. Er hynny, dylid medru cyrraedd targed o 12 wythnos yn achos prosiectau llai cymhleth.

8. Gwelir rhestr o’r achosion arfaethedig yn Atodiad B. Mae’n cynnwys 2 achos sy’n ymwneud ag anheddau unigol. Dylem allu ymdrin â’r rhain o fewn 8 wythnos. Er hynny, mae llawer ohonynt yn fwy cymhleth a byddant yn cymryd mwy o amser.

9. O ystyried y cefndir hwn, ni allaf argymell ein bod yn mabwysiadu targed o 8 wythnos ar gyfer y mwyafrif o achosion.

10. Byddai hefyd yn anodd cyrraedd targed o benderfynu ar 80% o achosion o fewn 12

wythnos, o ystyried natur yr achosion a fydd yn dod ger ein bron dros y 9 mis nesaf. Er hynny, gan fod gwneud penderfyniadau cyflym yn rhan hanfodol o unrhyw system effeithiol o wneud penderfyniadau, rwy'n credu y dylem fabwysiadu targed anodd o'r fath. Byddwn felly yn disgwyl inni benderfynu ar gymaint o achosion â phosibl o fewn 8 wythnos. Er hynny, dim ond drwy fod yn fwy hyblyg nag y mae'r gweithdrefnau presennol yn ei ganiatáu y gallem ystyried hwn yn darged realistig. Byddai gan hyn oblygiadau o ran staffio hefyd, a byddai'n rhaid i'r Weithrediaeth ystyried hyn. Rwy'n argymell fod y Pwyllgor yn mabwysiadu'r targed hwn, yn amodol ar gytundeb ar yr hyblygrwydd ychwanegol a amlinellir isod. Mae ychydig yn hirach na'r targed a roddir i'r awdurdodau cynllunio ond mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai'r Cynulliad yw'r man apelio olaf ar gyfer achosion Adran 78. Yn yr achosion hynny, ac mewn achosion Adran 77, rhaid i'r Cynulliad ystyried yr holl safbwyntiau a roddir i'r ymchwiliad, er budd cyfiawnder naturiol ac egluro sut y gwnaeth bwyso a mesur y gwahanol agweddau ar yr achos cyn gwneud penderfyniad. Hefyd, rhaid inni gynhyrchu llythyr penderfynu manwl a allai gael ei archwilio mewn llys. Nid oes yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y materion hyn wrth wneud penderfyniadau.

Cyfansoddiad y PPC

11. Rhaid inni ystyried dau brif opsiwn ar gyfer cyfansoddiad y PPC gydag OCG a gwerthuso'r rhain yn erbyn y gofynion o ran hawliau dynol:

(1) Cydbwysedd y Pleidiau gan gynnwys Gweinidog y Cynulliad sy'n gyfrifol am gynllunio; neu

(2) Cydbwysedd y Pleidiau heb gynnwys Gweinidog y Cynulliad.

12. Er fy mod yn ystyried y gallai (2) ymbellhau'r Cabinet oddi wrth y penderfyniad, byddai'r penderfyniad yn parhau i gael ei wneud gan ACau ar ran, ac yn enw, y Cynulliad. Pe byddem yn ei fabwysiadu, gallai achosi anhawsterau ar gyfer Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth yr Alban. Byddai'n rhaid iddynt ystyried newid eu trefniadau er mwyn sicrhau bod y bobl hynny sy'n penderfynu galw achosion i mewn yn wahanol i'r rhai hynny sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch yr achosion hynny. O ran hawliau dynol, mae'n debyg y byddai'r un mor debygol o dderbyn sialens ag opsiwn (1) ond efallai y byddai'r sialens honno ychydig yn llai tebygol o lwyddo. Rwyf hefyd wedi trafod gydag OCG y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd y PPC yn gyhoeddus. Gan fod y penderfyniad yn un lled-gyfreithiol, ni fyddai'n addas i'r rhai sydd â diddordeb a'r wasg fod yn bresennol gan y gallent, o bosibl, ddylanwadu ar y penderfyniad. Hefyd, gan ei bod yn ofynnol i'r penderfyniad fod yn un wedi'i wneud ar sail rhesymeg, mae'n hanfodol bod yr aelodau yn cael y cyfle i drafod yn agored rinweddau tystiolaeth a dadleuon o wahanol safbwyntiau.

Ansawdd y penderfyniadau a wneir

13. Rwyf wedi adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal ansawdd adroddiadau'r Arolygwyr gyda'r Arolygiaeth Gynllunio. Y materion a drafodwyd yn arbennig oedd eu strwythur, pa mor gynhwysfawr y dylent fod ac ystyriaethau o ran cyfle cyfartal. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu.

14. Rydym hefyd wedi adolygu'r gwaith a gyflawnir gan swyddogion wrth baratoi adroddiad ar gyfer y PPC. Gan ystyried yr angen i sicrhau fod y broses yn ddiogel rhag sialens, mae eisoes mor effeithlon ag y gall fod gyda'r lefel bresennol o staff.

15. Yn y pen draw, dim ond trwy fesur ansawdd y canlyniadau (y byddai'n anodd cael meini prawf diduedd arnynt) a thrwy ddiogelwch rhag sialens y gallwn fesur llwyddiant. Hyd yn hyn, nid yw yr un o'r pedwar achos y penderfynodd y PPC arnynt wedi derbyn sialens lwyddiannus.

Gweithdrefnau

16. Mae'r gweithdrefnau presennol yn arbennig o anhyblyg. Mae'r rheidrwydd i osod cynnig gerbron y Cyfarfod Llawn a dod o hyd i aelodau sydd ar gael ar gyfer yn PPC; a'r anawsterau sy'n codi yn ystod y toriad yn ychwanegu'n sylweddol at yr amser a gymerir i wneud penderfyniadau. Nid yw'r gweithdrefnau eu hunain yn ychwanegu at ansawdd y broses o wneud penderfyniadau. Os byddwn yn mabwysiadu targed anodd ar gyfer penderfynu ar achosion, bydd yn rhaid inni fabwysiadu gweithdrefnau hyblyg a chyflym.

17. Rwy'n argymell:

(1) ein bod yn cael gwared ar yr angen i fynd drwy'r broses o sefydlu Pwyllgor drwy weithdrefn sy'n gofyn am osod cynnig o flaen y Cyfarfod Llawn. Mae'n debyg y byddai hyn yn golygu creu pwyllgor sefydlog, ond nid yw hynny'n anorfod. Fel ag sy'n digwydd eisoes, byddai'n rhaid i'r aelodau fod yn aelodau o'r pwyllgor hwn neu'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am gynllunio. Mae rhai aelodau o'r farn y gallai ACau eraill wasanaethau ar PPC hefyd. Byddai hyn, yn sicr, yn ychwanegu at nifer yr aelodau posibl. Er hynny, byddai'n rhaid cyfyngu'r aelodaeth i'r rheini sydd wedi derbyn hyfforddiant ac sydd wedi arwyddo'r Cod Ymddygiad. Bydd y rhai sy'n gwneud cais, y rhai sy'n yn apelio a phobl eraill sydd â diddordeb yn disgwyl, yn naturiol, y bydd yr aelodau sydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau pwysig yn gyfarwydd â'r polisïau cynllunio presennol ac ati. O'r herwydd, byddai'n ddoeth cyfyngu'r aelodaeth i'r rhai hynny sydd wedi bod yn aelodau o'r "Pwyllgor Cynllunio" o fewn y 12 mis diwethaf;

(2) dylai'r PPC fod yn destun yr un rheolau ag ar hyn o bryd o ran niferoedd, cworwm a

chydbwysedd y Pleidiau;

(3) dylai Clerc y Pwyllgor drefnu cyfarfod o'r PPC wedi iddo dderbyn cais ysgrifenedig gan Weinidog y Cynulliad sy'n gyfrifol am Gynllunio. Dylai'r cais hwnnw hefyd nodi'r dyddiad olaf ar gyfer gwneud penderfyniad. Os na wneir penderfyniad, caiff ei ddirprwyo i Brif Weinidog Cymru. Efallai y byddai'n ddoeth cytuno ar ddyddiadau ar gyfer cyfres o gyfarfodydd mewn cylch 6 wythnos;

(4) gellid newid aelodaeth pob un o'r pwyllgorau (o fewn y cyfyngiadau cyffredinol a nodir yn (2) uchod) hyd at yr amser yr anfonir y papurau at yr aelodau; ac

(5) os na fydd y Clerc yn gallu trefnu cynnal cyfarfod o fewn 4 wythnos i dderbyn cais ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cynulliad, bydd y penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

(6) mae geiriad RhS 35 braidd yn amwys. Os ydym am newid y Rheolau Sefydlog, da o beth fyddai inni achub ar y cyfle hwn i egluro'r materion hyn. Byddai hefyd yn synhwyrol sicrhau mai dim ond yr achosion pwysicaf sy'n dod o flaen y Pwyllgor. Awgrymir cyfres o fân newidiadau er mwyn eglurder yn Atodiad C.

Adolygiad i'r Dyfodol

18. Rydym yn disgwyl am ddyfarniadau cyfreithiol a fydd yn helpu i wneud gofynion y Ddeddf Hawliau Dynol yn fwy eglur. Unwaith y byddwn yn gwybod canlyniad yr achosion hyn bydd angen inni adolygu ein holl weithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'n debyg y bydd angen inni gynnal yr adolygiad hwn yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**Sue Essex**

**Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd**

Man Cyswllt

Bob Evans, Yr Is-adran Gynllunio est 5358: Robert.Evans@wales.gsi.gov.uk

**Atodiad A**

**Y GWEITHDREFNAU AR GYFER YMDRIN Â PHENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Nodir y gweithdrefnau hyn yn Rheol Sefydlog 35. Dyma grynodeb byr ohonynt:

(1) unwaith y bydd Ysgrifennydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am gynllunio yn derbyn adroddiad yr arolygydd bydd yn paratoi datganiad byr a fydd yn nodi lleoliad a natur y datblygiad y mae yn gysylltiedig ag ef ac yn ei anfon at aelodau'r Panel Penderfyniadau Cynllunio a Chlerc y Pwyllgor EPT;

(2) cyn pen 10 niwrnod ar ôl iddo gael y datganiad, bydd yn rhaid i Glerc yr EPT roi i Drefnydd y Cynulliad enwau pedwar aelod sy'n ymddangos yn gymwysedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (PPC) yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Yna, bydd y Trefnydd yn gosod cynnig gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo mewn cyfarfod llawn. Mae hwn yn cynnwys dyddiad targed ar gyfer gwneud penderfyniad;

(3) os na fydd wedi llunio rhestr o bedwar aelod am unrhyw reswm, bydd y Trefnydd yn cyflwyno cynnig yn cynnig fod y Cynulliad yn dirprwyo'r penderfyniad mewn rhyw ffordd arall;

(4) os sefydlir PPC, rhaid i'w aelodaeth adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau gwleidyddol fel sy'n ofynnol yn Atodiad A i RhS 35;

(5) rhaid i holl aelodau'r PPC fod wedi gorffen y cwrs hyfforddi perthnasol;

(6) bydd swyddogaethau'r Pwyllgor yn peidio pan fydd y Cadeirydd yn llofnodi'r llythyr penderfyniad; a

(7) lle na fydd y Pwyllgor wedi penderfynu erbyn y dyddiad a bennir yn y cynnig, bydd y Pwyllgor yn peidio â bod a bydd y penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Ysgrifennydd.

**Atodiad B**

**ACHOSION A FYDD YN DOD GERBRON Y PPC**

| ACHOS | ACLl | AMSERU POSIBL |
|---|---|---|
| **Adran 77** | | |
| Diwydiannol, Shotwick Rd | Sir y Fflint | Haf 2001 |
| Estyniad i Siop M&S Croes Cwrlwys | Bro Morgannwg | Gwanwyn 2001 |
| Fferm Wynt, Cwm Llwyd<br><br>Fferm Wynt, Mynydd Clogau | Powys | Haf 2001 |
| Manwerthu, Ystad Ddiwydiannol Penrhos | Ynys Môn | Gwanwyn/Haf 2001 |
| Datblygiad Preswyl, Aberbechan | Powys | Gwanwyn 2001 |
| Datblygiad Preswyl, Llandysul, Powys | Powys | Gwanwyn 2001 |
| Odyn Sment, Padeswood | Sir y Fflint | Gwanwyn 2001 |
| Marina, Y Pwynt | Ynys Môn | Haf 2001 |
| Priffordd a maes parcio newydd, Aberhonddu | PCBB | Haf 2001 |
| Newid defnydd, Llannerch-y-medd | Ynys Môn | Haf 2001 |
| Canolfan Ragoriaeth Undeb Rygbi Cymru | Casnewydd | Haf 2001 |
| Ailadeiladu hen annedd a sgubor, Llanigon | PCBB | Haf 2001 |
| Fferm Wynt, Pentrefoelas | Conwy | Haf 2001 |
| Ffatri prosesu pren integredig | Powys | Haf 2001 |
| Fferm Wynt, Foel Goch | Sir Ddinbych | Hydref 2001 |

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 78** | | |
| Datblygiad Cymysg, Ysbyty’r Eglwys Newydd | Caerdydd | Hydref 2001 |
| Fferm Wynt, Trefwrdan | Sir Benfro | Gwanwyn 2001 |
| Datblygiad Manwerthu, Stiwdios HTV | Bro Morgannwg | Gwanwyn 2001 |
| Fferm Wynt, Pentrefoelas | Conwy | Haf 2001 |
| Datblygiad Preswyl, Llansanffraid Gwynllg | Casnewydd | Gwanwyn 2001 |
| Fferm Wynt, Nantcarfan, Llanbrynmair | Powys | Haf 2001 |

**ATODIAD C**

**ESBONIAD ARFAETHEDIG**

Nid yw geiriad presennol RhS 35 yn hollol eglur ynghylch pa achosion y mae’n rhaid eu cyfeirio at y PPC. Mae’r RhS hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cyfeirio i’r PPC achosion nad ydynt o arwyddocâd cenedlaethol ynddynt eu hunain. Byddai’r newidiadau a ganlyn yn cynnig mwy o eglurder ac yn sicrhau mai dim ond achosion sy’n codi cwestiynau arwyddocaol y bydd y PPC yn eu hystyried:

(1) Pan fo’r swyddogion yn astudio achosion, mae’n angenrheidiol iddynt weithiau gysylltu â’r un sy’n gwneud y cais/yr un sy’n gwneud apêl er mwyn cael mwy o wybodaeth neu eglurhad. Nid yw RhS 35 yn ei gwneud yn glir os yw gweithred o’r fath yn dod o dan y diffiniad o "benderfyniad". Dylid ail-ddrafftio’r RhS er mwyn ei gwneud yn eglur bod penderfyniad yn gallu cynnwys achos o gyfeirio’n ôl gan swyddogion.

(2) O bryd i’w gilydd, caiff apêl ei adfeddiannu gan y Cynulliad (oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio) er mwyn gwneud penderfyniad o dan Adran 78 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref am ei fod yn gysylltiedig â chais am gymeradwyaethau eraill (ac nid oherwydd bod y cais cynllunio

yn codi materion arbennig). Gallai’r rhain fod yn ganiatau adeilad rhestredig, gorchmynion pryniant gorfodol, tystysgrifau datblygiad cyfreithlon ac ati. Fel y mae wedi’i eirio ar hyn o bryd, mae’r RhS yn ei gwneud yn ofynnol i’r PPC benderfynu ar yr achosion hyn unwaith y byddant wedi eu cysylltu ag achos Adran 78. Mewn achosion o’r fath, mae’n ymddangos yn synhwyrol peidio â chyfeirio’r rhain at y PPC iddynt benderfynu arnynt.

(3) Fel yn achos (2) uchod, ceir cysylltiad weithiau rhwng apêl sydd wedi ei adfeddiannu sydd yn codi materion pwysig o ran cynllunio a cheisiadau eraill am gymeradwyaeth. Rhaid inni sicrhau nad yw’r Rheolau Sefydlog yn rhwystro’r Pwyllgor rhag ystyried y cymeradwyaethau hyn.